# Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)
# Is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol

## Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** Dydd Llun 13 Gorffennaf 2020

**Yr aelodau a oedd yn bresennol**
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
Anne Noord (yn gwneud nodiadau ar ran CNC)
Dennis Matheson, TFA
Aled Jones, UAC
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru
Creighton Harvey, FIPSG
Bob Vaughan, CNC
Sarah Hetherington, CNC
Sarah Jones, Dŵr Cymru
Marc Williams, CNC
Nichola Salter, CNC
Katy Simmons, CNC
Spencer Conlon, LlC
Shane Thomas, CFF
Jamie McCoy, AHDB
Kate Snow, United Utilities
Lee Price, Menter a Busnes
Frazer McAuley, CLA
James Ruggeri, HCC
Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)
Liz Franks, HD Cymru

**Ymddiheuriadau**
Andrew Chambers, LlC
Kirsten Hughes, HCC
Sophie Straiton, DCWW
Matt Lowe, CNC

## Eitem 1: Croeso

Estynnwyd croeso i Sarah Jones o Dŵr Cymru sy'n cymryd yr awenau oddi wrth Stephen Bradley. Mynegodd Zoe ei diolch i Stephen am ei holl gyfraniadau i'n grŵp. Bydd colled ar ei ôl. Dywedodd Sarah y bydd yn trosglwyddo'r neges i Stephen ac yn gobeithio y gall hi efelychu ei waith da. Esboniodd Sarah ei bod wedi gweithio i Dŵr Cymru ers 5 mlynedd yn Nhîm y PAC, yn y Gorllewin yn bennaf, ac yna roedd wedi dringo gan weithio ar lefel Cymru gyfan o fewn y tîm Gwaredu.

**Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd Stephen Marsh-Smith fuddiant gan ei fod yn berchen ar ddarn mawr o Afon Gwy sy'n cael ei effeithio gan lygredd ac a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod heddiw.

Datganodd Sarah Jones fod ei theulu'n ffermio yng Ngŵyr.

Datganodd Shane Thomas ei fod yn bysgotwr a'i fod yn astudio am radd feistr mewn Rheoli Pysgodfeydd.

**DS:** Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datgan buddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth sydd ar yr agenda.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 15 Mehefin 2020

**Cywiriadau**

**Tudalen 6** 4ydd Paragraff – dylai nodi "well documented" ac nid “WEL documented”.

**Tudalen 8** paragraff 3 – dylai nodi “Objective” ac nid “Objection”.

**Pwyntiau Gweithredu**

***PG 3 Mawrth: Trafodaethau i'w cynnal ar y modd i symud y grwpiau Agrisgôp yn eu blaen a drafftio cynnig i’w gyflwyno i'r Is-grŵp (Mark Squire, CNC).***

*Bydd Marc Williams yn mynd ar drywydd y mater*

***PG 5 Mawrth: Dosbarthu siart y strwythur ar gyfer y tîm Tystiolaeth, Cynllunio a Chaniatáu i'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC).***

*Mae'r siart yn parhau i gael ei hadeiladu. Bydd Nik yn mynd ar drywydd y mater.*

***PG 2 Mai: CNC i ymchwilio i'r dyddiadau pan roddwyd cyfarwyddyd i staff CNC i beidio â mynychu digwyddiadau ac i gyfyngu ar eu presenoldeb mewn digwyddiadau a oedd â risg i iechyd pobl, ynghyd â’r dyddiadau pan gafodd y cyfyngiadau eu codi (Bob Vaughan, CNC)***

*Mae Marc wedi anfon e-bost gyda'r canllawiau ac esboniad*

***PG 7 Mai: Dosbarthu gwybodaeth o ran y modd y byddai CNC yn archwilio graddfa’r her amgylcheddol yng nghyd-destun yr ymgynghoriad cyfredol ar y canllawiau amonia i Rachel Lewis-Davies (Marc Williams, CNC)***

*I'w trafod yn y cyfarfod*

***PG 10 Mai: Dosbarthu nodyn briffio ar y newidiadau mewn Arferion Ffermio Llaeth yng Nghymru i aelodau'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC)***

*Mae'r nodyn briffio wedi'i ddosbarthu. Mae Rachel (NFU Cymru) wedi derbyn llawer o sylwadau a bydd yn eu hanfon at yr Is-grŵp i'w trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

***PG 1 Mehefin: Darparu adroddiad manylach ar yr hyn y gwariwyd yr SPG arno, ym mha feysydd, yr hyn yr oedd y ffermwyr yn ei gyfrannu, a lle yr oedd y cyllid hwnnw a oedd â pherthynas uniongyrchol â rheoli maethynnau wedi mynd –i'w anfon at y Cadeirydd ar gyfer ei ddosbarthu (Kevin Taylor, LlC).***

*Mae Kevin wedi anfon adroddiad atom sydd wedi'i ddosbarthu.*

Dywedodd Dennis y bu archwiliad o sut mae RPW yn gweithio ac yn cael ei ariannu. A allai hyn fod yn berthnasol i wariant SPG? Cadarnhaodd Rachel fod yr archwiliad yn berthnasol i geisiadau uniongyrchol felly nid yw'n cynnwys arian y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n cael ei wario gyda ffermwyr. Roedd canfyddiad nad oedd £53m o'r cyllid wedi cael rheolaeth i sicrhau gwerth am arian. Bydd Rachel yn rhannu'r adroddiad hwn. Dywedodd Lee Price y bu gwerthusiad canol tymor a chyfarfu'r Bwrdd Cynghori Statudol 6 wythnos yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynnwys asesiadau canol tymor i lywio camau gweithredu yn y dyfodol, yr effaith fwyaf ac ati. Dywedodd y Cadeirydd fod gan rai siroedd wariant uwch nag eraill. Mae angen dadansoddiad o'r amserlen mewn perthynas â SPG5 a gwarant y trysorlys.

*Bydd Bob yn gofyn am y rhain gan Kevin.*

***PG 4 Mehefin: Gwybodaeth i gynorthwyo i gwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r pandemig cyfredol i'w hanfon at Spencer Conlon, LlC (Pawb).*** *Pawb i anfon gwybodaeth at Spencer*

***PG 5 Mehefin: Gwirio i weld a oedd gan yr achos cyfredol a oedd yn cael ei gyflwyno gan Afonydd Cymru yn Llys y Comisiwn Ewropeaidd unrhyw oblygiadau o ran amseriad penderfyniad y Gweinidog (Spencer Colon, LlC)***. *Dywedodd Spencer fod y casgliadau cychwynnol yn nodi nad oes effaith ar hyn o bryd, ond gallai hyn newid.*

***PG 6 Mehefin: Dosbarthu dolen i aelodau'r is-grŵp ar y canllawiau i ffermwyr ar ddŵr ar gyfer da byw a'r amgylchedd a luniwyd yn 2018.*** Roedd y rhain bellach wedi cael eu hadolygu, a byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC. ***(Marc Williams, CNC). Cwblhawyd***

***PG 7 Mehefin: Darparu adroddiad yn y cyfarfod nesaf ar y canfyddiadau o ran y Cynlluniau Rheoli Maethynnau a cheisiadau seilwaith (Lee Price*** – Menter a Busnes). *Mae Lee wedi darparu adroddiad a fydd yn cael ei drafod yn cyfarfod nesaf*

***PG 8 Mehefin: Adolygu'r cynllun gweithredu a blaenoriaethu rhai o'r prosiectau yn seiliedig ar drafodaethau, gan geisio dangos y cynnydd a wnaed ar yr holl argymhellion erbyn y cyfarfod nesaf (Sarah Hetherington, Marc Williams, Bob Vaughan, CNC).*** *I'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod*

***PG 9 Mehefin: Siarad â'r Tîm yn CNC sy'n edrych ar gyllid allanol i weld pa gyfleoedd a allai fod ar gael i gefnogi'r Adroddiad Safon Dŵr, a bwrw ymlaen â'r camau nesaf (Bob Vaughan, CNC***

***PG 10 Mehefin: Siarad â John Owen, Gelli Aur am gyllid allanol, yn unol â PG 7 (Bob Vaughan, CNC).*** Camau gweithredu

***PG 11 Mehefin: Adolygu fformat y Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Adroddiad Safon D***ŵr (Y Cadeirydd a Marc Williams, CNC). Camau gweithredu

***PG 12 Mehefin: Adolygu'r Cynllun Cyfathrebu yn seiliedig ar y sylwadau a gafwyd ynghylch Amcan 2, ac anfon y fersiwn ddrafft ddiwygiedig oddi amgylch ar gyfer y cyfarfod nesaf (***Katy Simmons – CNC). *I'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod*

***PG 13 Mehefin: Adolygu cwestiynau ac adborth y cynllun cyfathrebu i Katy Simmons neu Marc Williams, CNC (Pawb) I'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod***

***PG 14 Mehefin: Egluro a yw ystadegau'r Diwydiant Dŵr yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol (Nik Salter, CNC)***

Esboniodd Bob fod Gorsafoedd Carthion Cyfun wedi'u cynllunio yn y bôn i ddiogelu prosesau triniaeth mewn gwaith trin drwy sicrhau bod y llif sy'n dod i mewn i'r gwaith yn hylaw ac yn unol â dyluniad y gwaith. Fe'u cynlluniwyd i weithredu yn ystod cyfnodau o law trwm yn unig pan fydd y dŵr yn fwy gwan er mwyn gallu ymdopi ag unrhyw ollyngiadau llygredig. Maent hefyd yn gweithredu i ddarparu 'rhyddhad' mewn cyfnodau o law trwm i atal busnesau ac eiddo domestig rhag profi llifogydd drwy leddfu unrhyw orlwytho a sicrhau nad yw dŵr wedi'i faeddu yn cyrraedd eiddo.

Ni fyddai achosion o orlifo yn cael eu hadrodd a'u cofnodi fel mater o drefn os ydynt yn gweithredu o fewn amodau trwydded; fodd bynnag, os byddai Gorsaf Carthion Cyfun yn gweithredu yn ystod tywydd sych a bod CNC yn clywed am hyn drwy gŵyn gan aelod o'r cyhoedd neu'n uniongyrchol gan y cwmni dŵr fel ffordd o 'hunan-adrodd' byddai'r achos yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad gan fod yr Orsaf yn gweithredu y tu hwnt i amodau ei thrwydded. Byddai'r digwyddiadau hyn fel arfer yn cael eu cofnodi ar System Cofnodi Cymru ar gyfer Digwyddiadau (WIRS) CNC.

Gofynnodd Rachel a yw gollyngiadau Gorsafoedd Carthion Cyfun yn cael eu cyfrif yn yr ystadegau ynghylch digwyddiadau llygredd? Credai Nik eu bod yn cael eu cynnwys a gofynnodd i Rachel anfon mwy o fanylion am ddigwyddiadau yn Llanwrtyd. Dywedodd Rachel fod yr wybodaeth ar wefan Dŵr Cymru ac nid yw'n ymddangos fod y niferoedd mor uchel. Gofynnodd Bob a hysbyswyd CNC yn eu cylch ond nid oedd Rachel yn gwybod. Dywedodd Bob eu bod yn cael eu caniatáu ond mai dim ond nifer penodol y caniateir iddynt eu rhyddhau. Os ydynt yn mynd y tu hwnt i hyn, mae'n ofynnol iddynt roi gwybod i ni.

***Pwynt Gweithredu 01 Gorffennaf: Rachel i ddosbarthu dolen am ystadegau'r Gorsafoedd Carthion Cyfun i'r Is-grŵp i'w hadolygu.***

Dywedodd Zoe fod angen i ni fod yn fodlon/hyderus bod pob maes llygredd yn destun craffu. Tynnodd Creighton sylw at y ffaith bod Afonydd Cymru yn pryderu a bod CNC a Dŵr Cymru yn cael eu beirniadu oherwydd bod angen hysbysu'r cyhoedd.

Dywedodd Kate fod Gorsafoedd Carthion Cyfun yn cael eu caniatáu a'u bod ond yn cyfrif fel digwyddiad os eir y tu hwnt i nifer y digwyddiadau a ganiateir. Mae llawer o amser ac arian wedi'i fuddsoddi yn hyn ond mae'r ffaith bod y tywydd wedi gwaethygu/glaw trwm/llifogydd wedi gwneud y broblem yn un mwy difrifol.

Dywedodd Dennis fod 2 safle ble mae carthion heb eu trin yn mynd yn syth i afonydd pan fydd glaw trwm. Dywedodd Bob y dylid adrodd am hyn, na ddylai fod yn garthffosiaeth amrwd, y dylid ei wanhau. Mae tanciau septig yn wahanol a gallant achosi problemau pan nad yw pobl yn eu gwagio mor aml ag y dylent.

Dywedodd Stephen fod Dŵr Cymru yn cael ei reoleiddio a'i ganiatáu a'u bod yn adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau, ond mae'n teimlo ei bod yn ymddangos bod Amaethyddiaeth yn gallu gwagio beth bynnag y maent yn ei hoffi pryd bynnag y bydd yn bwrw glaw. Dywedodd Rachel a Zoe fod angen i'r sector amaethyddol ddeall bod meysydd eraill yn cael eu dwyn i gyfrif nid dim ond nhw. Anogodd Zoe yr aelodau i ddarllen nodiadau Marc gan eu bod yn dda iawn ac yn esboniadol.

***PG 16 Mehefin: Gwirio ansawdd a diwygio Ystadegau Llygredd Amaethyddol yn unol ag adborth a dosbarthu graffiau i'r Is-grŵp (Marc Williams, CNC)*** *Darparwyd ystadegau gan Marc, gwnaed y sylwadau a ganlyn:*

Dywedodd Stephen ei fod yn pryderu am nifer y maethynnau dan sylw yn hytrach na nifer y digwyddiadau yn unig. Mae am wybod faint o faethynnau sy'n cael eu cynhyrchu, faint sy'n cael eu storio a'u taenu a faint o ollyngiadau a gwastraff sydd yno. Mae o'r farn nad y gollyngiadau/digwyddiadau mawr yw'r broblem fwyaf ond y gwastraff cyson bob dydd. Mae gan Fraser hefyd ddiddordeb mewn gwybod ar ba ddata y mae'r ffigurau'n seiliedig arnynt.

Dywedodd Bob fod gwaith monitro wedi'i wneud ers blynyddoedd lawer a'i fod yn cael ei ddefnyddio i sefydlu amodau cyffredinol. Rydym hefyd yn ymgymryd â gwaith modelu i ddeall beth sy'n digwydd. Adroddir ar hyn wrth Lywodraeth Cymru a'r UE. Gofynnodd Stephen ble y gellir dod o hyd i'r adroddiadau hyn; mae wedi gofyn amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac nid yw'n ymddangos eu bod ar gael? Dywedodd Zoe y byddai hyn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr agenda ac mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ychwanegodd fod yr achos sylfaenol yn ddiddorol ac mae'n ymddangos mai methiant rheoli yw achos digwyddiadau. Mae angen ystod o wahanol atebion.

***PG 17 Mehefin: Aelodau'r Is-grŵp i ddarparu negeseuon ar Dynnu Graean ar gyfer datganiad pellach i'r wasg i Marc Williams, CNC (Pawb)***

Dywedodd Stephen ei fod wedi gwneud prosiect ar dynnu graean 10 mlynedd yn ôl ac roedd wedi llunio taflen.

***PG Gorffennaf 02: Stephen i anfon taflen ar dynnu graean at Marc i'w dosbarthu i'r Is-grŵp.***

***PG 18 Mehefin: Egluro a oes caniatâd cyfyngedig ar faint o raean y gellir ei gymryd (Bob Vaughan, CNC).***

*Yn disgwyl sylw*

## Eitem 3: Cynllun Gweithredu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Esboniodd Bob fod llawer o ymdrech wedi mynd i mewn i'r cynllun hwn er gwaethaf y gwaith ychwanegol a achoswyd gan COVID-19 a hefyd gyfyngiadau ariannol. Oherwydd hyn rydym yn blaenoriaethu a hefyd yn gofyn am help. A oes unrhyw un ar y grŵp hwn a allai helpu? Dywedodd Creighton y byddai'n hapus i helpu, a gwirfoddolodd Lee hefyd.

Nid yw Marc wedi anfon y Cynllun Gweithredu allan eto ond rhannodd ei sgrin ar gyfer y rhai a oedd ar Skype. Gofynnodd Zoe a ellid ei hanfon allan fel y gallai pobl nad ydynt ar Skype ei weld.

Aeth Marc drwy'r argymhellion â blaenoriaeth ac esboniodd beth sydd wedi digwydd gyda cholofn arall yn nodi pa gamau nesaf sydd eu hangen i symud yr argymhelliad yn ei flaen.

***Pwynt Gweithredu 03 Gorffennaf: Marc i ddosbarthu'r ddogfen argymhellion â blaenoriaeth i'r Is-grŵp***

Roedd Jamie McCoy yn mynd i nodi pa adnoddau oedd ar gael yn AHDB ar briddoedd sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ar gyfer argymhelliad 4.12. Soniodd Kate am fenter ar Afon Dyfrdwy i edrych ar darddiad erydiad a defnyddio gwaith hau indrawn i helpu. Bydd nifer o sondiau'n cael eu defnyddio i fesur afloywder a byddant yn rhedeg am tua 24 mis.

***Pwynt Gweithredu 04 Gorffennaf: Kate i anfon manylion am gyswllt CNC ar brosiect Afon Dyfrdwy at Bob i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.***

O ran argymhelliad 6.1 soniodd Lee Price fod y cofnodion DPP ar gael ar-lein lle gall ffermwyr fewngofnodi a chael mynediad. Fel rhan o'r cofnod DPP, caiff yr holl gyfarfodydd, digwyddiadau a phecynnau hyfforddi sy'n gysylltiedig â Chyswllt Ffermio eu diweddaru'n awtomatig i gofnod DPP yr unigolyn, ynghyd ag adran i lanlwytho unrhyw dystysgrifau neu gymwysterau y tu allan i Cyswllt Ffermio. Gellid defnyddio hwn fel siop un stop i gasglu'r holl wybodaeth ar gyfer y tirfeddiannwr unigol.

Soniodd Creighton fod Argymhelliad 3.1 sef Dadansoddiad o wraidd y broblem yn flaenoriaeth yn y cofnodion diwethaf. Dywedodd fod pethau wedi symud yn eu blaen ers yr adroddiad yn ôl ym mis Ebrill 2018 a gofynnodd am i'r wybodaeth hon gael ei diweddaru gan fod peth o'r dystiolaeth wedi newid.

***Pwynt Gweithredu 05 Gorffennaf: Marc i ychwanegu argymhelliad 3.1 at y rhestr flaenoriaethau yn y ddogfen.***

Cafwyd trafodaeth ar y siop un stop ar gyfer gwybodaeth i dirfeddianwyr ac mae CNC wedi gwneud gwaith i wella eu gwefan.

Dywedodd Sarah H fod Andrew Chambers wedi cymryd camau i ystyried y cartref gorau ar gyfer gwybodaeth – sef un ai gwefan CNC neu LlC.

Gofynnodd Zoe a oeddem mewn sefyllfa i roi popeth mewn un lle. Atebodd Sarah fod popeth yn barod ond nid mewn fformat hygyrch. Mae'r Tîm Digidol yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd, yn enwedig o ran cofnodion Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gan eu bod i gyd ar ffurf pdf a bydd angen eu newid.

Argymhelliad 6.10 Esboniodd Lee fod Cyswllt Ffermio wedi bod yn gweithio ar y dalgylchoedd â blaenoriaeth gyda digwyddiadau ar y fferm, ond oherwydd COVID-19 ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau wedi'u targedu. Fodd bynnag, yn yr hirdymor defnyddir gweminarau a digwyddiadau rhithwir i ddarparu gwybodaeth i dirfeddianwyr sy'n ymgysylltu â gweithgarwch digidol. Mae'n haws trefnu'r rhain, heb yr angen i unrhyw un deithio a chan leihau costau. Bydd hwn yn gyfle da i roi cyngor a gwybodaeth i ffermwyr yn y dalgylchoedd wedi'u targedu.

Tynnodd Sarah H sylw at yr angen i sicrhau bod gennym fframweithiau cymhwysedd ar gyfer asiantau newid er mwyn darparu cyngor cyson o ansawdd da. Soniodd Sarah J am gael trafodaeth gyda'r fenter wirfoddol plaladdwyr ynghylch sut yr oeddent yn darparu hyfforddiant neu'n cynhyrchu sesiynau briffio i asiantau a oedd yn gyson.

Dywedodd Rachel fod angen set arbennig iawn o sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth ar yr asiantau newid. Bydd yn cymryd amser i feithrin perthynas ddibynadwy â'r gymuned ffermio.

***Pwynt Gweithredu 06 Gorffennaf: Sarah H yn helpu i ddatblygu Fframwaith Cymwyseddau sy'n dwyn ynghyd y pecynnau hyfforddi gan bob sefydliad.***

Dywedodd Jamie fod AHDB yn hapus i gefnogi unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ffermwyr, ond mae angen cynghorwyr da arnynt i gyflawni'r gwaith ynghyd ag eglurder ar reoliadau cyn i ffermwyr ystyried ymgysylltu. Mae'r tîm AHDB yn hwyluswyr arbenigol ond dim ond rhwydwaith o ddim ond 3 neu 4 ledled Cymru ydynt o'i gymharu â llawer mwy o fewn Cyswllt Ffermio.

Rhestrwyd yr holl argymhellion ym mhennod 7 (buddsoddiadau) a bwriedir edrych ar y rhain yn y cyfarfod nesaf. Diolchodd Bob i bawb am gynigion o gefnogaeth i symud yr argymhellion yn eu blaen. Tynnodd Bob sylw hefyd at y ffaith y bydd CNC yn hysbysebu am Arweinydd Prosiect cyn bo hir i helpu i ddatblygu hyn.

## Eitem 4: Cynllun Cyfathrebu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Rhannodd Katy S y Cynllun Cyfathrebu ar ei sgrin. Gofynnodd Zoe i bawb ymrwymo iddo a'i gefnogi.

Dywedodd Creighton fod Cyswllt Ffermio wedi cynhyrchu fideo ychydig o flynyddoedd yn ôl ynglŷn â llygredd amaethyddol, ond nid yw ond wedi cael ei wylio 192 o weithiau. Mae 34,000 o fusnesau ffermio yn bodoli felly mae 192 yn ffigur isel iawn (er y bydd rhai ohonynt wedi'i weld mewn digwyddiadau eraill.) Mae angen ffordd o sicrhau bod ffermwyr yn gweld a chlywed negeseuon cyfathrebu. Gofynnodd Katy sut mae ffermwyr yn dymuno derbyn negeseuon cyfathrebu.

Dywedodd Stephen MS nad yw paragraff 2 o’r Cefndir/Cyd-destun ond yn sôn am nifer y digwyddiadau ac nid yw'n cynnwys llygredd gwasgaredig. Gofynnodd Jamie M a oedd y rhain yn ddigwyddiadau sylweddol. Dywedodd Stephen MS mai digwyddiadau yw'r rhain a bod llygredd gwasgaredig yn arfer safonol ac nad yw'n cael ei gyfrif. Dywedodd Zoe fod angen atgyfnerthu’r gwaith hwn yn y ddogfen hon. Dywedodd Sarah H ei bod yn anodd mesur llygredd gwasgaredig. Mae Kate yn tynnu sylw at ddarnau er mwyn denu sylw pobl.

Dywedodd Dennis fod y Prosiect Llaeth yn tynnu sylw ffermwyr at Arfer Gorau. Mae angen gwneud hyn wyneb yn wyneb. Nid yw ffermwyr bob amser yn darllen nac yn gwylio unrhyw beth.

Dywedodd Bob fod angen i'r ymarfer cyfathrebu glymu pethau gyda'i gilydd, er mwyn annog pobl i wneud y peth iawn. Dywedodd Sarah J ei bod yn cymryd amser i ennyn ymddiriedaeth mewn pethau newydd. Angen dweud wrth bobl 7 gwaith mewn 7 ffordd wahanol, rhannu neges ar draws partneriaid dibynadwy. A oes gan Cyswllt Ffermio neu CNC ddadansoddiadau o'r cyfryngau o ran yr hyn sy'n gweithio gyda gwahanol grwpiau? Dywedodd Katy y gallwn ddefnyddio hynny ar ein gwefannau ein hunain. Dywedodd Sarah J ei bod hefyd yn bosibl targedu codau post.

Dywed Katy fod angen gwaith ar rif 2 o'r 5 amcan allweddol. Unrhyw awgrymiadau eraill? Dywedodd Zoe nad ydym yn targedu cymunedau ond yn hytrach rydym yn targedu llygredd. Dywedodd Stephen MS fod COGAP yn dweud na ddylid lledaenu pan fydd hi'n bwrw glaw ond dyma pryd maen nhw'n lledaenu. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu torri bob amser. Mae SSAFO wedi dyddio. Mae lefel yr anghenion storio yn fwy. Dywedodd Sarah H nad yw COGAP yn god statudol. Dywedodd Zoe fod angen i ni drafod Cyfathrebu yn awr ac nid COGAP.

Dywedodd Katy fod digwyddiadau ond bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn dilyn y canllawiau ac mae angen i ni ganolbwyntio ar y rhai sy'n torri'r canllawiau yn canmol y rhai sy'n ei ddilyn. Amlinellodd Katy y negeseuon allweddol.

Dywedodd Bob fod yr holl lygredd yn cael ei gynnwys ond yn slyri'n bennaf gan mai dyma'r brif broblem. Ychwanegodd nad dogfen gan CNC yw hon ond dogfen Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Rydym wedi cyflawni cynnydd ac mae'n waith caled ond bydd yn talu ar ei ganfed.

Dywedodd Zoe fod sicrhau bod y cyfathrebu yn iawn yn gam da ymlaen a bod angen i bob aelod chwarae ei ran wrth gyflwyno negeseuon allweddol. Mae angen gwylio’r fideo mwy o weithiau ond bydd angen ystyried sut i’w wella.

***Pwynt Gweithredu 07 Gorffennaf: Pob aelod i anfon sylwadau ynglŷn â'r cynllun cyfathrebu erbyn wythnos i ddydd Gwener at Katy.***

## Eitem 5: Diweddariad Cyswllt Ffermio – Adroddiad ar Reoli Maethynnau a Seilwaith

Rhoddodd Lee, Cyswllt Ffermio, ddiweddariad byr ar yr adroddiad a ddosbarthwyd i aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar yr adroddiadau Rheoli Maethynnau a Seilwaith. Roedd 617 o fusnesau wedi derbyn adroddiadau ac wedi cael cyngor. Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno cais ac mae gwaith yn digwydd naill ai ar ffurf 1:1 neu fel senario grŵp. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau, bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal asesiad effaith dilynol 12 mis ar ôl cwblhau'r adroddiad. Dim ond ciplun o nifer y busnesau yw hyn. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cyngor yn cael effaith. Gall Lee fapio lleoliad y 617 o fusnesau yn ddaearyddol.

Holodd Rachel a fyddai unrhyw gyfle i ymgorffori'r arolwg tebyg a gynhaliwyd ar y gwaith dalgylchoedd a dargedwyd? Dywedodd Lee y gellid gwneud hyn ac y gall gynnal astudiaeth ddilynol ar gyfer y dalgylchoedd amrywiol dros gyfnod o amser.

## Eitem 6: Gordyfiant Algâu yn Afon Gwy

Dywedodd Bob fod llawer o ddiddordeb yn hyn. Y gwanwyn a'r haf hwn bu llawer o achosion o ordyfiant algâu. Yr ydym wedi gwneud llawer o waith monitro, yr ydym yn mynd drwy adolygiad trylwyr o ddata ar gyfer pob afon.

Ffocws y cyfryngau yw nifer yr Unedau Dofednod, llawer ohonynt yn is na throthwy trwydded EPR a'r gred gyffredinol yw mai'r rhain sy'n achosi'r broblem. Mae llawer o unedau carthffosiaeth mawr yn lleihau eu gollyngiadau ffosffad.

Bydd adroddiad data ansawdd dŵr yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Rydym yn gweithio gyda chynhyrchwyr, ALlau, Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn gyflawn ac yn gywir yn gyntaf. Mae materion cynllunio'n cael eu hadolygu.

Dywedodd Stephen MS fod 2 brif isafon yn bwydo Afon Gwy. Aeth yr Ithon yn wyrdd uwchben y gwaith carthffosiaeth ym mis Ebrill ac erbyn dechrau Mehefin roedd yr afon gyfan yn wyrdd. Mae angen cynhesrwydd, golau'r haul a ffosffad i gyd i achosi hyn. Mae 63 o Unedau Dofednod Dwys ger yr Ithon, mae'r holl fwyd dofednod yn cael ei fewnforio, nid yw'n cael ei ailgylchu fel sy'n digwydd wrth gynhyrchu llaeth. Mae gormod yn mynd i mewn i'r cyrsiau dŵr. Mae'n glir fod rheolau wedi'u torri o ran cynefinoedd. Dylai Ardaloedd Risg Uwch fod wedi'u pennu ar gyfer pob un o'r 59 uned ddiweddar. Fe wnaeth Henffordd atal cynlluniau, wnaeth Powys ddim.

Ymatebodd Bob ein bod yn gweithio'n galed i gyrraedd yr achos sylfaenol ac y byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau. Rydym yn gweithio gyda LlC ac ALlau. Gall ALl Henffordd wneud pethau na allwn eu gwneud. Bu cynnydd mewn unedau dofednod ond nid cynnydd yn lefelau ffosffadau. Yr ydym yn ei gymryd o ddifrif.

## Eitem 7: Diweddariad ar yr Ymgynghoriad ynghylch Canllawiau Amonia

Rhoddodd Bob yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r canllawiau amonia. Oherwydd COVID-19 mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn. Mae'r ymgynghoriad yn codi materion a godwyd o'r amodau amonia blaenorol gyda sylwadau i wella'r amodau a sicrhau eu bod yn fwy effeithiol.

***Pwynt Gweithredu 08 Gorffennaf: Pob aelod o'r grŵp i edrych ar y dogfennau ymgynghori a gwneud sylwadau. Gellir trefnu cyfarfod gyda CNC i drafod ymhellach.***

## Eitem 8: Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal drwy Skype wrth symud ymlaen

- Dydd Llun 17 Awst 2020
- Dydd Llun 14 Medi 2020
- Dydd Llun 19 Hydref 2020
- Dydd Llun 16 Tachwedd 2020
- Dydd Llun 14 Rhagfyr 2020

## Eitem 9: Yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau dyddiadur perthnasol neu ddigwyddiadau wedi’u canslo/gohirio

Soniodd Marc am y digwyddiad ar-lein gan CAFC a fydd yn cael ei gynnal o ddydd Llun i ddydd Iau yr wythnos nesaf.

## Eitem 10: Unrhyw Fater arall

Soniodd Sarah J fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfleoedd ariannu i wella ansawdd dŵr yng Nghymru, sy'n sôn am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, Grantiau Bach Glastir a phrosiectau gwella ansawdd dŵr CNC.

***Pwynt Gweithredu 09 Gorffennaf: Sarah J i anfon dolen am gyfleoedd ariannu Llywodraeth Cymru at Marc i'w dosbarthu i'r Is-grŵp.***

Esboniodd Sarah H fod cyllid Llywodraeth Cymru i CNC ar gyfer cyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae gwybodaeth yn cael ei dwyn ynghyd ar y prosiectau sy'n cael eu harwain gan Mark Squire a gellir ei dosbarthu i'r Is-grŵp.

***Pwynt Gweithredu 10 Gorffennaf: CNC i ddosbarthu gwybodaeth am brosiectau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a ariennir gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd dŵr yng Nghymru.***

Tynnodd Sarah H sylw at y penderfyniad rheoleiddio ynghylch esemptiad gwastraff U10 o ran y defnydd o laeth i dir a’r ffaith ei fod wedi pasio'r adolygiad 3 mis a bydd bellach yn cael ei dynnu'n ôl. Bydd yr eithriad yn dychwelyd i'r amodau gwreiddiol cyn y cyfyngiadau symud.

***Pwynt Gweithredu 11 Gorffennaf: Sarah H i ddarparu briff ar yr Esemptiad Gwastraff U10 a'i ddosbarthu i'r Is-grŵp.***

Gofynnodd Dennis i Marc a oedd diweddariad ar y Gwasanaeth Plastigau Gwastraff. Dywedodd Marc nad oedd ganddo unrhyw ddiweddariadau, ond dylai Andrew Chambers fod â rhywfaint o wybodaeth. Dywedodd Creighton ei fod wedi darparu manylion am gwmni yng Nghaerfyrddin a oedd yn casglu plastigau i Andrew ond nid yw wedi derbyn unrhyw adborth.

***Pwynt Gweithredu 12 Gorffennaf: Marc i ofyn i Andrew Chambers am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Casglu Plastig Gwastraff a'i ddosbarthu i'r Is-grŵp.***

## Diwedd y cyfarfod